# Rheoleiddio Doethach: Cryfhau rheoleiddiad economaidd y sectorau ynni, dŵr a thelathrebu

Fel y cânt eu rheoleiddio gan Ofgem, Ofwat ac Ofcom.

Tachwedd 2023

# Gwybodaeth gyffredinol

## Pam rydym yn ymgynghori

Mae’r sectorau ynni, dŵr a thelathrebu yn darparu gwasanaethau hanfodol i’r cyhoedd, ac o ganlyniad maent yn bwysig iawn i economi’r DU.
Oherwydd eu pwysigrwydd, yn ogystal â’r angen am fuddsoddiad parhaus i gefnogi’r gwaith o gynnal a chadw gwasanaethau hanfodol, mae’r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar set benodol o gynigion sy’n targedu materion a godwyd mewn meysydd amrywiol: twf, cystadleuaeth, defnyddwyr, dyletswyddau, ac apeliadau. Ar draws y pum maes hyn mae’r llywodraeth yn gofyn am farn ynglŷn â chynigion a all wella’r amgylchedd rheoleiddio economaidd, gan gynyddu buddsoddiad a thwf, hybu cystadleuaeth, gwella tryloywder, darparu cefnogaeth i ddefnyddwyr a chryfhau’r drefn apelio.
Bydd yr adborth i’r ymgynghoriad hwn hefyd yn sail i waith ehangach y llywodraeth ar Reoleiddio Doethach. Mae’r ymgynghoriad hwn yn rhan o becyn a gyhoeddwyd ochr yn ochr â Datganiad yr Hydref, sy’n cynnwys cyhoeddiadau eraill sy’n berthnasol i reoleiddio economaidd, megis yr ymateb i’r ymgynghoriad ar ymestyn y ddyletswydd twf a’r ymgynghoriad ar ganllawiau statudol y ddyletswydd twf. Mae’r alwad bresennol am dystiolaeth ynglŷn â’r dirwedd reoleiddio hefyd yn rhan o waith y llywodraeth ar Reoleiddio Doethach.

## Manylion yr ymgynghoriad

**Cyhoeddwyd:** 22 Tachwedd 2023

**Ymatebion erbyn:** Hanner nos 17 Ionawr 2024

**Ymholiadau i:**
Ebost: economicregulation@businessandtrade.gov.uk

Economic Regulation
Department for Business and Trade
2nd Floor
Old Admiralty Building
Llundain
SW1A 2AY

**Cyfeirnod yr ymgynghoriad:** Rheoleiddio Doethach: Cryfhau rheoleiddiad economaidd y sectorau ynni, dŵr a thelathrebu

**Cynulleidfa:**
Rheoleiddwyr, busnesau, grwpiau neu gynrychiolwyr busnes, defnyddwyr, cyrff anllywodraethol, a phob parti arall sydd â diddordeb.

**Rhychwant tiriogaethol:**
Y Deyrnas Unedig

**Sut i ymateb**

**Ymateb ar-lein yn**: [insert Qualtrics link]
neu
**Ebost**: economicregulation@businessandtrade.gov.uk
**Drwy'r post**:
Economic Regulation
Department for Business and Trade
2nd Floor
Old Admiralty Building
Llundain
SW1A 2AY

Mae ffurflen ymateb ar gael ar dudalen ymgynghori GOV.UK: www.gov.uk/government/consultations/XXX

Wrth ymateb, dylech nodi a ydych yn ymateb fel unigolyn ynteu'n cynrychioli barn sefydliad.

Bydd eich ymateb yn fwyaf buddiol os yw wedi'i fframio mewn ymateb uniongyrchol i'r cwestiynau a ofynnwyd, ond croesewir sylwadau a thystiolaeth bellach hefyd.

## Cyfrinachedd a diogelu data

Gall gwybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei datgelu yn unol â deddfwriaeth y DU (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych yn dymuno i'r wybodaeth rydych yn ei rhoi gael ei thrin yn gyfrinachol, dywedwch wrthym, ond sylwch na allwn warantu cyfrinachedd ym mhob sefyllfa. Ni fyddwn yn ystyried ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG fel cais am gyfrinachedd.

Byddwn yn prosesu eich data personol yn unol â'r holl gyfreithiau diogelu data sy'n gymwys. Gweler ein polisi preifatrwydd.

Er mwyn darparu gwybodaeth ar gyfer camau nesaf cynigion yr ymgynghoriad, rhennir ymatebion i'r ymgynghoriad ag adrannau eraill y llywodraeth yn ôl y galw. Byddwn yn crynhoi'r holl ymatebion ac yn cyhoeddi'r crynodeb hwn ar GOV.UK. Bydd y crynodeb yn cynnwys rhestr o enwau sefydliadau a ymatebodd, ond ni fydd yn cynnwys enwau personol, cyfeiriadau neu fanylion cysylltu eraill pobl.

# Crynodeb Gweithredol

Mae twf economaidd yn un o brif flaenoriaethau'r llywodraeth. Ym mis Mai, cyhoeddodd y llywodraeth 'Smarter Regulation to Grow the Economy'[1], gan ymrwymo i sicrhau mai yn y DU y byddai'r economi sy'n cael ei rheoleiddio orau yn y byd, ac amlinellu'r bwriad i ymgynghori ar ddiwygiadau i reoleiddiad economaidd ynni, dŵr a thelathrebu gan Ofgem, Ofwat ac Ofcom yn y drefn honno.

Yn ôl y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol (NIC), yn 2019, roedd y sectorau ynni, dŵr a thelathrebu yn unig yn gyfrifol am tua 4% o gynnyrch domestig gros y DU, a thros 13% o gyfanswm buddsoddiad sector preifat y DU, ac yn cael effaith fawr ar dwf economaidd[2]. O ganlyniad, mae'n bwysig bod y llywodraeth yn dal i ystyried cyfleoedd i wella rheoleiddiad economaidd y sectorau hyn er mwyn cynyddu twf a chynhyrchiant.

Mae'r amgylchedd y mae'r rheoleiddwyr hyn yn gweithredu ynddo wedi newid ers iddynt gael eu creu. Mae cynnydd yn y boblogaeth, newid hinsawdd a heriau cydnerthedd yn golygu bod angen buddsoddi mwy ym mhob un o'r sectorau hyn er mwyn cynnal a gwella gwasanaethau, ar gyfer defnyddwyr heddiw ac yn y dyfodol. Ers iddynt gael eu ffurfio, mae pob rheoleiddiwr wedi gweld y dirwedd y mae'n gweithredu ynddi yn mynd yn fwy cymhleth. Mae nifer y dyletswyddau cyfreithiol, yn ogystal â'r gofynion a roddir arnynt wedi cynyddu'n sylweddol. Gall hyn arwain at ddiffyg eglurder ac anghysondeb i fuddsoddwyr. Yn yr un modd, gall esblygiad gwahanol drefniadau apelio ym mhob sector ymddangos yn anghyson ac atal buddsoddiad.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar set benodol o gynigion sy'n targedu materion a godwyd mewn pum maes: twf, cystadleuaeth, defnyddwyr, dyletswyddau, ac apeliadau. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Er mwyn cefnogi **buddsoddiad**, bydd asesiad llawn a thryloyw o'r buddsoddiad sydd ei angen ar draws y sectorau hyn (gan gynnwys beth, pryd a ble) yn caniatáu i randdeiliaid a'r cyhoedd ddeall yr heriau a hybu dadl ynglŷn â sut i gynyddu buddsoddiad a sicrhau tegwch rhwng cenedlaethau, yn enwedig pan fydd hyn yn effeithio ar filiau defnyddwyr. Dylid cyfeirio at yr asesiad hwn pan fydd y rheoleiddwyr hyn yn adrodd ar benderfyniadau cyllido. O ran adolygu prisiau, mae'r llywodraeth yn cynnig y dylai Ofgem ac Ofwat gymryd mwy o brosiectau allan o'r broses adolygu prisiau a gofyn am farn ynglŷn â sut i leihau eu cymhlethdod. O ran dŵr, mae'r llywodraeth yn cynnig opsiynau i hybu dulliau o feddwl trwy systemau.

- Er mwyn helpu **defnyddwyr bregus**, mae'r llywodraeth yn ystyried un Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth amlsector fel bod modd rhannu data rhwng darparwyr gwasanaeth lle mae cwsmer eisoes wedi rhoi gwybod i

[1] Yr Adran Busnes a Masnach, 'Smarter Regulation to Grow the Economy', 2023 (Darllenwyd 16/10/23)
[2] Y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol. 'Strategic Investment and Public Confidence', 2019, tudalen 9 (edrychwyd arno ar 10/10/23)

un ohonynt bod arno angen cymorth ychwanegol, a'i fod yn fodlon i'w wybodaeth gael ei rhannu â'i ddarparwyr eraill.

- Edrych sut y gall rheoleiddwyr gyflwyno a chynnal **cystadleuaeth** marchnad ddigonol yn y sectorau. Ar gyfer y sector dŵr, mae cynigion i: gefnogi buddsoddiad strategol mewn prosiectau seilwaith mawr drwy fodelau trwyddedu a chontractio; cefnogi newydd-ddyfodiaid; a newidiadau i'r Cod Manwerthu Cyfanwerthu ar gyfer y farchnad ddibreswyl. Yn y sector telathrebu, dylai Ofcom adolygu a yw'r dull presennol o fonitro yn cofnodi materion cystadleuaeth yn ddigonol. Er mwyn hybu cystadleuaeth ar berfformiad rhwng cwmnïau, dylai Ofgem ac Ofwat ystyried mwy o ddefnydd o fetrigau cymharol. Gofynnir hefyd am farn mewn cysylltiad â phob sector ynglŷn â'r cwestiwn a yw'r rhannu pwerau sy'n digwydd ar hyn o bryd yn mynd i'r afael yn effeithiol ag ymddygiad gwrth-gystadleuol.

- Er mwyn sicrhau bod **dyletswyddau rheoleiddwyr** yn parhau'n addas i'r diben, mae'r ymgynghoriad yn cynnig y dylai adrannau perthnasol o'r llywodraeth gynnal adolygiadau o'u dyletswyddau rheoleiddwyr perthynol. Gofynnir am farn ynglŷn â sut y gellir gwneud hyn er mwyn sicrhau pwyslais ar ddyletswyddau rheoleiddio economaidd allweddol i gefnogi defnyddwyr, hybu twf economaidd, sicrhau cystadleuaeth effeithiol, cyflawni targedau Sero Net a gwarchod yr amgylchedd.

- Er mwyn sicrhau bod **trefniadau apelio** yn dal i alw rheoleiddwyr i gyfrif, mae'r ymgynghoriad yn cynnig ei gwneud hi'n haws i ystyried budd defnyddwyr yn y tri sector. Er mwyn cefnogi rôl yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) mewn apeliadau ynni a dŵr, mae'r llywodraeth yn cynnig rhoi pwerau iddynt benodi mwy o aelodau panel ac ymestyn terfynau amser lle bo angen. Ar gyfer ynni, mae'r ymgynghoriad yn cynnig y dylai'r CMA ddosrannu ei gostau yn decach. Ar gyfer dŵr, mae'n cynnig newid trefn apelio rheoli prisiau Ofwat i'w gwneud yn fwy cydnaws â threfn apelio'r sector ynni.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhan o set ehangach o ddiwygiadau sy'n ceisio gwella rheoleiddio economaidd. Mae'n ategu'r ymgynghoriadau cyfochrog ar:

- y canllawiau statudol diwygiedig i gynorthwyo rheoleiddwyr i gyflawni eu cyfrifoldebau dan y ddyletswydd twf; a
- 'Smarter Regulation Call for Evidence on the regulatory landscape'[3] lle caiff unrhyw ymatebion sy'n ymwneud ag Ofgem, Ofwat ac Ofcom eu hystyried ochr yn ochr ag ymatebion i'r ymgynghoriad hwn.

Mae trosolwg cyffredinol o ganlyniadau i ddefnyddwyr yn ddiweddar a'r amgylchedd ym mhob un o'r sectorau hyn i'w weld yn Atodiad D. Yn ogystal, darperir barn ddadansoddol gychwynnol ar effeithiau'r cynigion polisi yn unol â chanllawiau'r Llyfr Gwyrdd (yn Atodiad E) a bydd y llywodraeth yn defnyddio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ac ymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid i helpu i ddatblygu dadansoddiad parhaus a'i ddefnyddio fel tystiolaeth i fynd â chynigion yn eu blaenau.

---

[3] Yr Adran Busnes a Masnach, '[Smarter regulation and the regulatory landscape: call for evidence overview]', 2023 (Darllenwyd 17/10/23)

Mae’r llywodraeth felly yn annog ymatebwyr i roi tystiolaeth lle bo modd yn eu hymateb.